Care & Repair
Gofal a Thrwsio

# Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer Cwsmeriaid a Darpar Gwsmeriaid

## Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru

Mae Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru yn helpu pobl oedrannus ac agored i niwed i atgyweirio, addasu a chynnal a chadw eu cartrefi er mwyn iddynt allu parhau i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r gwasanaeth a ddarperir yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn cael ei deilwra i anghenion pob unigolyn, gan ddarparu cyngor a chymorth ynglŷn ag ystod eang o faterion.

### Cyflwyniad

Fel un o gwsmeriaid Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru, rydym yn parchu eich preifatrwydd ac wedi ymrwymo i ddiogelu eich data personol. Bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn egluro sut yr ydym yn gofalu am eich data personol ac yn sôn wrthych am eich hawliau o ran preifatrwydd ac am y modd y cewch eich gwarchod gan y gyfraith.

Mae'n bwysig i chi ddarllen yr hysbysiad preifatrwydd hwn ynghyd ag unrhyw wybodaeth y gallem ei darparu pan fyddwn yn casglu neu'n prosesu data personol amdanoch, er mwyn i chi fod yn gwbl ymwybodol o sut a pham yr ydym yn defnyddio eich data.

Mae'n bwysig bod y data personol yr ydym yn ei gadw amdanoch yn gywir ac yn gyfredol. Cofiwch roi gwybod i ni os bydd eich data personol yn newid yn ystod eich perthynas â ni.

### Rheolydd

At ddibenion yr hysbysiad hwn a deddfwriaeth diogelu data, Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru yw rheolydd eich data personol.

Mae Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru yn aelod o Grŵp ateb Cyfyngedig, a gallai fod yna adegau pan fydd ateb yn casglu ac yn prosesu eich data ar ein rhan. Mae gan ateb ei hysbysiad preifatrwydd ei hun sydd i'w weld ar ei wefan, ynghyd â mwy o wybodaeth am y Grŵp *www.atebgroup.co.uk*

Mae gan y Grŵp Swyddog Diogelu Data penodedig sy'n gyfrifol am gadw golwg ar unrhyw gwestiynau a allai fod gennych am yr hysbysiad hwn neu'r modd yr ydym yn defnyddio eich data. Mae manylion cyswllt y Swyddog Diogelu Data i'w gweld ar ddiwedd yr hysbysiad.

### Y data personol y byddwn yn ei gasglu amdanoch

Mae data personol yn golygu unrhyw wybodaeth y gellir adnabod unigolyn byw wrthi.

Byddwn yn casglu'r data personol canlynol amdanoch, gennych chi neu aelodau eich teulu neu drwy asiantaethau atgyfeirio:

- Manylion personol a manylion cyswllt, megis enw llawn, cyfeiriad, dyddiad geni ac ati;
- Manylion am iechyd a lles, megis unrhyw anabledd neu broblemau meddygol, gan gynnwys manylion eich meddyg teulu a'r sawl sy'n darparu cymorth i chi o ran iechyd; (categori arbennig o ddata personol)
- Manylion eich eiddo, megis deiliadaeth, lleoliad a maint;
- Manylion eich incwm, megis cyflog, budd-daliadau a chynilion a manylion am eich gwariant os oes angen.

## Pam y mae angen eich data personol arnom

Byddwn yn casglu ac yn prosesu eich gwybodaeth bersonol am y rhesymau canlynol:

- Er mwyn asesu cais am gynnyrch neu wasanaeth, sy'n cynnwys ystyried a yw'r cynnyrch neu'r gwasanaeth yn addas i chi ai peidio;
- Er mwyn darparu cynnyrch neu wasanaeth sy'n diwallu eich anghenion;
- Er mwyn rheoli cynnyrch neu wasanaeth sy'n cael ei ddarparu i chi;
- Er mwyn gwella'r modd y mae ein busnes yn gweithredu, neu wella'r cynnyrch a ddarperir i chi;
- Er mwyn rheoli ein gweithrediadau busnes;
- Er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddiol;
- Er mwyn cydymffurfio â'ch dewisiadau o ran marchnata;
- Er mwyn rhannu gwybodaeth â'n partneriaid a'n cyllidwyr, megis yr awdurdod lleol, Llywodraeth Cymru, Gofal a Thrwsio Cymru ac asiantaethau cymorth eraill.

## Y rhesymau cyfreithlon sydd gennym dros brosesu eich data personol

Caiff y rhesymau cyfreithlon sydd gennym dros brosesu eich gwybodaeth eu hegluro isod. Dylech nodi y gallem brosesu eich data personol ar sail mwy nag un o'r rhesymau cyfreithlon hyn.

- Cyflawni contract – Pan fyddwch yn dod yn gwsmer i ni, bydd angen i ni brosesu eich data personol er mwyn cyflawni ein rhwymedigaethau i chi dan gontract.
- Buddiant dilys – Ceir adegau pan fyddwn yn prosesu eich data oherwydd bod gwneud hynny'n un o'n buddiannau dilys, er enghraifft:
    - Cyflawni ein gweithrediadau busnes, monitro perfformiad ein gweithrediadau

busnes a’n cynnyrch a rhoi prawf arnynt;

  - Cydymffurfio â gofynion awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yng nghyswllt cyllid a rheoleiddio;
  - Hyrwyddo a marchnata ein gwasanaethau a’n gweithgareddau;
  - Deall a dadansoddi ein cwsmeriaid a rhannu’r wybodaeth honno â’n partneriaid busnes;
  - Gwneud peth gwaith proffilio a gwaith arall lle caiff penderfyniadau eu gwneud yn awtomataidd;
  - Cadarnhau neu gyflwyno hawliadau cyfreithiol neu’n hamddiffyn rhag hawliadau o’r fath;
  - Sicrhau eich iechyd, eich diogelwch a’ch lles, os oes angen i ni wneud hynny.

- Rhwymedigaethau cyfreithiol – Ceir adegau pan fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith i ni brosesu eich data personol, er enghraifft:
  - Er mwyn diogelu oedolion agored i niwed;
  - Er mwyn atal a chanfod twyll a throsedd.
- Caniatâd – Mae’n bosibl y bydd angen eich caniatâd penodol arnom ar gyfer rhai o’n gweithgareddau prosesu, er enghraifft:
  - Er mwyn anfon rhai mathau o ddeunydd marchnata uniongyrchol atoch;
  - Er mwyn gwneud peth gwaith proffilio a gwaith arall lle caiff penderfyniadau eu gwneud yn awtomataidd;
  - Er mwyn prosesu eich data personol sy’n perthyn i gategori arbennig, megis manylion am eich iechyd a manylion meddygol.

## Rhannu eich data personol

Ceir adegau pan fydd y rhesymau cyfreithlon a restrir uchod yn mynnu ein bod yn rhannu eich data personol â thrydydd partïon. Mae’r mathau o drydydd partïon fel a ganlyn:

- Contractwyr trydydd parti a fydd yn cyflawni addasiadau ar ein rhan. Mae’n ofynnol i bob contractwr a gaiff ei ddefnyddio gennym gydymffurfio â’r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, yn rhan o’i rwymedigaethau dan gontract;
- Yn rhan o’n gwasanaeth i chi, mae’n bosibl y byddwn yn nodi anghenion y mae modd i awdurdod lleol neu asiantaethau cymorth eraill eu diwallu. Mae’r asiantaethau hynny’n cynnwys yr awdurdod lleol, yr RNIB, Cymdeithas y Milwyr, Morwyr, Awyrenwyr a’u Teuluoedd, Action on Hearing Loss ac Aseswyr Golwg, Nyth ac asiantaethau megis ymgynghorwyr budd-daliadau, cyllidwyr gwasanaethau gwresogi, darparwyr cyllid lles, yr Adran Gwaith a Phensiynau a chwmnïau cyfleustodau;

- Asiantiaid sy'n cefnogi ein swyddogaethau busnes megis darparwyr cyllid, yswirwyr, darparwyr TG, Gofal a Thrwsio Cymru a chwmnïau sy'n rhan o strwythur ein Grŵp;

- Cyrff y Llywodraeth a chyrff rheoleiddio megis Llywodraeth Cymru, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, yr Ombwdsmon a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth;

- Sefydliadau ymchwil i'r farchnad, sy'n ein helpu i ddatblygu a gwella ein cynnyrch a'n gwasanaethau.

## Cyfnodau cadw data personol

Ni fyddwn yn cadw eich data personol am fwy nag sydd raid i gyflawni'r dibenion y casglwyd y data ar eu cyfer, gan gynnwys at ddiben bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol neu ofynion o ran cyfrifyddu neu gyflwyno adroddiadau. At ei gilydd, byddwn yn cadw eich data personol am y cyfnod canlynol:

- Os byddwch yn dod yn gwsmer i ni – am 6 blynedd o'r dyddiad y daeth ein contract â chi i ben;
- Os na fyddwch yn dod yn gwsmer i ni – am 6 mis o'r dyddiad y daeth ein hymwneud â chi i ben.

Os yw'n fwriad gennym, yn y dyfodol, brosesu eich data personol at ddiben ar wahân i'r diben y cafodd ei gasglu ar ei gyfer, byddwn yn rhoi gwybodaeth i chi am y diben hwnnw ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall.

## Eich hawliau

Dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018, mae gennych nifer o hawliau'n ymwneud â'ch data personol.

Mae gennych yr hawl i ofyn i ni am fynediad i'ch data a'r hawl i ofyn i ni gywiro neu ddileu eich data personol, yr hawl i gyfyngu ar y prosesu a wneir, yr hawl i wrthwynebu unrhyw brosesu ac, mewn rhai amgylchiadau, yr hawl i gludadwyedd data a hawliau'n ymwneud â phenderfyniadau awtomataidd.

Os ydych wedi rhoi caniatâd i ni brosesu eich data, mae gennych yr hawl (mewn rhai amgylchiadau) i dynnu'r caniatâd hwnnw'n ôl unrhyw bryd heb fod hynny'n effeithio ar gyfreithlondeb y prosesu a ddigwyddodd cyn i chi dynnu eich caniatâd yn ôl.

Mae gennych yr hawl i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth os ydych yn credu nad ydym wedi cydymffurfio â gofynion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data neu'r Ddeddf Diogelu Data yng nghyswllt eich data personol. Fodd bynnag, byddem yn gwerthfawrogi cael cyfle i ymdrin â'ch pryderon cyn i chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, felly gofynnwn i chi gysylltu â ni yn y lle cyntaf.

Gallwch gael mwy o wybodaeth am eich hawliau ym Mholisi Preifatrwydd y Grŵp, sydd i'w weld ar *www.atebgroup.co.uk*.

Os hoffech gael unrhyw wybodaeth bellach am unrhyw beth yn yr hysbysiad hwn, neu os hoffech arfer eich hawliau, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data gan ddefnyddio'r manylion isod:

Enw llawn yr endid cyfreithiol: Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru

Enw neu deitl y Swyddog Diogelu Data: Ceri Barnett

Cyfeiriad ebost: mydata@atebgroup.co.uk

Cyfeiriad post: Tŷ Meyler, St Thomas Green, Hwlffordd, Dyfed, SA61 1QP

Rhif ffôn: 01437 763688